Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Strategol i fynd i'r afael a Thrais yn Erbyn Merched a diweddaru Strategaeth Cam-Drin Domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru** |
| **Dyddiad:** | **22 Mehefin 2009** |
| **Gan:** | **Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** |

Diben y Datganiad hwn gan y Cabinet yw hysbysu'r Aelodau i mi lansio, ar 22 Mehefin 2009, ymgynghoriad 12 wythnos ar y cynllun gweithredu strategol newydd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn merched a diweddaru strategaeth cam-drin domestig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ar 4 Rhagfyr 2008, cyhoeddodd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant adroddiad o'r enw 'Cam-drin Domestig yng Nghymru'. Roedd yr adroddiad hwn yn edrych ar sut roedd ein strategaeth cam-drin domestig genedlaethol yn cael ei chyflawni a nododd 28 o argymhellion i Lywodraeth Cynulliad Cymru eu hystyried. Rhoddais ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 11 Chwefror 2009 ac roedd modd imi dderbyn y rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor. Yn fy ymateb, ymrwymais i ddatblygu cynllun gweithredu strategol newydd i wella'r ffordd o gyflawni'r strategaeth.

Cyn cael adroddiad y Pwyllgor, roeddem eisoes wedi dechrau gweithio gyda Thîm Troseddu'r Swyddfa Gartref yng Nghymru i adolygu'n strategaeth wreiddiol. Rydym wedi ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu cynllun gweithredu strategol newydd a fydd yn parhau i fynd i'r afael â cham-drin domestig a gwneud cynnydd ar yr agenda ehangach ar drais yn erbyn merched dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae rhanddeiliaid eisoes wedi helpu i lywio'r gwaith o ddiweddaru'r cynllun.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at yr agenda sy'n sail i'r cynllun gweithredu hwn yn glir - ni fyddwn yn goddef trais o unrhyw fath yn ein cymdeithas a byddwn yn parhau i roi cymorth i bob un sy'n dioddef cam-drin domestig. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod mai merched sy'n dioddef trais yn y cartref fwyaf o bell ffordd a'u bod yn aml yn pryderu am eu diogelwch wrth fynd allan i'w cymunedau. Mae'r cynllun newydd yn cydnabod bod menywod a phlant yn dioddef yn anghymesur ac mae'r cynllun yn canolbwyntio'n fwy ar sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â hyn.

Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol wedi'i gyhoeddi ar y wefan:
http://wales.gov.uk/consultations/housingcommunity/vaw/?lang=en

Mae'r ymgynghoriad i'w gynnal rhwng 22 Mehefin 2009 a 21 Medi 2009 a chynhelir digwyddiadau ymgynghori yng Nghasnewydd, Caerfyrddin a'r Wyddgrug.